Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Cwrt Linden
Clos Ilex Llanisien
Caerdydd CF14 5DZ
Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163
www.hefcw.ac.uk

Linden Court
Ilex Close Llanishen
Cardiff CF14 5DZ
Tel 029 2076 1861
Fax 029 2076 3163
www.hefcw.ac.uk

hefcw

Cylchlythyr | Circular

Astudiaethau Cymreig

Dyddiad: 12 Tachwedd 2012
Cyfeirnod: W12/35HE
At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Prifathrawon colegau addysg bellach yng Nhymru a gyllidir yn uniongyrchol
Ymateb erbyn: 1 Chwefror 2013
Cyswllt:

Enw: Alison Allan
Kimberley Meringolo
Ffôn: 029 2068 2223 or 029 2068 2258
Ebost: alison.allan@hefcw.ac.uk
kimberley.meringolo@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn gofyn i sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach sydd â darpariaeth addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol ymateb i arolwg am ddarpariaeth Astudiaethau Cymreig.

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat hygyrch arall, cysylltwch â ni drwy ffonio (029) 2068 2225 neu e-bostiwch info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn gofyn i sefydliadau addysg uwch a sefydliadau addysg bellach sydd â darpariaeth addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol ymateb i arolwg am ddarpariaeth Astudiaethau Cymreig.

Cefndir

2. Mae'r llythyr cylch gwaith a gafodd CCAUC gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2012/13 yn gofyn i ni “barhau i ganolbwyntio ar y gwaith o gyflwyno pynciau o bwys strategol, sef Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM), cynnal ieithoedd tramor modern, a chyflwyno dysgu cyfrwng Cymraeg a'r disgyblaethau y gellid eu galw'n Astudiaethau Cymreig, yn cynnwys astudio hanes a llenyddiaeth Cymru, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth yn y ddwy iaith”.

3. Yng ngoleuni'r cyfeiriad strategol at Astudiaethau Cymreig fel agwedd ar ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru sydd o bwys strategol, rydym yn gofyn i sefydliadau ein helpu i gynnal arolwg o'r sefyllfa bresennol. Yna bydd yn bosibl i ni ystyried a oes angen camau gweithredu penodol pellach. Yna gallwn ystyried pa gamau gweithredu penodol eraill sydd eu hangen, os o gwbl. Gan ddefnyddio’r wybodaeth o’r arolwg, byddwn hefyd am greu darlun cliriach o’r hyn sy’n cael ei ystyried fel astudiaethau Cymreig fel agwedd nodweddiadol o fewn addysg uwch yng Nghymru. Dylid pwysleisio nad oes unrhyw oblygiadau mewn perthynas â chyllid ar hyn o bryd.

4. Roeddem am sicrhau na fyddem yn rhoi baich gormodol ar sefydliadau. Felly rydym wedi ceisio gwneud rhywfaint o waith cychwynnol a byddwn hefyd yn gwneud gwaith arall i gasglu gwybodaeth berthnasol.

5. ***Ymchwil*** Er bod yr arolwg hwn yn ymwneud yn bennaf â darpariaeth a addysgir, rydym hefyd am gael syniad o'r ffordd y mae'r proffil ymchwil a'r gweithgareddau o fewn disgyblaethau perthnasol yn cyfrannu at ymchwil ac ysgolheictod o fewn Astudiaethau Cymreig. Rydym wedi tynnu sylw at hwn yn yr arolwg.

Cwmpas yr arolwg

6. Nid yw canfod pa feysydd pwnc y gellir eu hystyried fel rhai sy'n dod o fewn cwmpas Astudiaethau Cymreig yn hawdd, yn enwedig ar gyfer yr hyn y gellir ei gwmpasu gan “ddiwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth”. Gellid ystyried dimensiynau o'r fath fel rhai sy'n dod o fewn elfennau nifer o ddisgyblaethau mewn rhyw ffordd.

7. Nid ydym wedi ceisio diffinio'n fwy penodol beth sy'n cael ei gwmpasu o fewn Astudiaethau Cymreig y tu hwnt i eiriad y llythyr cylch gwaith sef, “hanes a llenyddiaeth Cymru, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth yn y

ddwy iaith". Yn hytrach, byddwn yn edrych i sefydliadau i wneud eu penderfyniadau rhesymegol eu hunain ynghylch sut mae'r agweddau hyn o astudiaeth yn cael eu hadlewyrchu yn eu darpariaeth. Er nad oes sôn penodol am ddysgu'r iaith Gymraeg, rydym o'r farn y gellid ystyried ymwybyddiaeth o iaith a dwyieithrwydd yng Nghymru o dan Astudiaethau Cymreig fel y disgrifir yn y llythyr cylch gwaith.

8. Er mwyn sicrhau bod yr arolwg yn hawdd ei drin, hoffem ffocysu'n weddol fanwl ar rai meysydd pwnc penodol y gellir disgwyl iddynt gael cynnwys Astudiaethau Cymreig sylweddol. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol i ni pe bai'r sefydliadau wedyn yn edrych ar rai o'u meysydd pwnc eraill yn llai manwl, ac ystyried y cyfraniad a wnânt i sicrhau dealltwriaeth a gwybodaeth am Gymru. Bydd hyn yn ein galluogi i weld sut mae Astudiaethau Cymreig yn ymestyn ar draws y cwricwlwm addysg uwch.

9. Y meysydd pwnc rydym wedi'u nodi i'w hystyried yn fanylach yw:

- Gwleidyddiaeth
- Daearyddiaeth
- Y Gyfraith
- Twristiaeth
- Ieithyddiaeth
- Llenyddiaeth Saesneg
- Iaith a Llenyddiaeth Cymraeg
- Astudiaethau Celtaidd
- Hanes
- Cerddoriaeth
- Drama/Theatr/Film
- Addysg

Er hwylustod, byddwn yn galw'r rhain yn "**brif bynciau**". Byddwn yn cyfeirio at feysydd pwnc eraill y gallai sefydliadau ddarparu gwybodaeth i ni fel rhan o'r arolwg fel "**pynciau eraill**".

10. Byddem yn pwysleisio nad yw Astudiaethau Cymreig yn ymwneud â'r iaith cyflwyno fel y cyfryw, ond cynnwys y ddarpariaeth yn hytrach. Felly byddem yn disgwyl gweld cynnwys Astudiaethau Cymreig sylweddol mewn cyrsiau penodol yn cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Saesneg, ond yn yr un modd, bydd rhai modiwlau'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cynnwys elfen fach o Astudiaethau Cymreig, os o gwbl.

11. Ceir dwy elfen i'r arolwg:
    a) Nodi modiwlau penodol sydd â chynnwys Astudiaethau Cymreig
    b) Sylwadau gan sefydliadau am y lle sydd gan Astudiaethau Cymreig yng nghwricwlwm disgyblaethau a meysydd pwnc gwahanol.

12. Nid ydym wedi cynnwys **y Brifysgol Agored yng Nghymru neu golegau addysg uwch o fewn addysg bellach (AU mewn AB) a gyllidir yn uniongyrchol** yn yr arolwg o fodiwlau. Gweler paragraffau 32 a 33 i weld

sut yr hoffem i'r Brifysgol Agored a'r colegau addysg bellach sydd â darpariaeth addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol gyfrannu at yr arolwg.

a) Arolwg o Fodiwlau

13. Fel man cychwyn ar gyfer yr arolwg, rydym wedi edrych ar deitlau modiwlau'r ddarpariaeth mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a dynnwyd o ddata'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU) ar gyfer 2010/11 ar gyfer codau canlynol y System Cyd-godio Pynciau Academaidd (JACS), sy'n adlewyrchu'r prif bynciau:

- L200 i L290: Gwleidyddiaeth
- L700 i L711, L720, L721 i L727: Daearyddiaeth
- M100, M110, M112, M200: Y Gyfraith
- N800, N830 i N832, N870: Lletygarwch, Hamdden, Twristiaeth a Thrafnidiaeth
- Q100 i Q190: Ieithyddiaeth
- Q200 i Q290: Astudiaethau llenyddol cymharol
- Q300 i Q390: Iaith a llenyddiaeth Saesneg
- Q560, Q561: Iaith a llenyddiaeth Cymraeg
- Q910, Q920: Cyfieithu
- V100 i V490: Hanes ac Archaeoleg
- W300 i W390: Cerddoriaeth
- W400 i W490: Drama, Theatr
- W500 i W590: Dawns
- W600 i W690: Cinemateg a Ffotograffiaeth
- W800 i W890: Ysgrifennu creadigol
- W900 i W990: Celfyddydau creadigol amrywiol

14. Roeddem am sicrhau na fyddem yn rhoi baich gormodol ar sefydliadau drwy ofyn iddynt bysgota drwy restri hir o deitlau modiwlau er mwyn dewis y rhai â chynnwys Astudiaethau Cymreig. Felly rydym wedi gwneud rhywfaint o'r gwaith cychwynnol. O deitlau'r modiwlau, rydym wedi tynnu'r modiwlau hynny lle rydym yn ystyried bod cynnwys Astudiaethau Cymreig. Ar gyfer rhai modiwlau, mae hyn yn amlwg o'r teitlau, ond ceir rhai eraill, yn enwedig y rhai sy'n cwmpasu pwnc eang neu gyffredinol o fewn y ddisgyblaeth, lle nad yw'n amlwg ac efallai bod pwyslais amrywiol mewn sefydliadau gwahanol. Felly nid yw'r broses yn wyddonol gadarn ac mae'n siŵr y bydd angen i rai sefydliadau ddiwygio rhai o'n dewisiadau.

15. Nid ydym wedi cadw modiwlau ar y rhestr dim ond am fod y teitl yn Gymraeg. Wrth ddewis, rydym wedi cymhwyso'r un egwyddorion ar gyfer modiwlau sydd â theitlau Saesneg wrth ystyried a oes ganddynt gynnwys Astudiaethau Cymreig.

16. Ar gyfer pob un o'r modiwlau a restrwyd ar gyfer eich sefydliad, hoffem i chi nodi cyfran y modiwl sy'n cynrychioli Astudiaethau Cymreig. Bydd y tablau y byddwn yn eu hanfon ar wahân i bob sefydliad ar gyfer eu modiwlau yn cynnwys nifer y canrannau dangosol. Hoffem bwysleisio ein

bod yn chwilio am gyfrannau **bras**. Nid ydym yn disgwyl i sefydliadau dreulio amser hir yn cyfrifo'r union ganrannau. Er enghraifft, os ydych chi'n credu bod oddeutu hanner modiwl yn cynnwys Astudiaethau Cymreig, ond gallai fod yn fwy neu'n llai na hynny, gallech gofnodi 50%. Rydym wedi marcio'r tablau lle rydym yn weddol hyderus fod modiwl yn cynnwys Astudiaethau Cymreig 100%, ond gall sefydliadau newid y canrannau hyn fel y bo'n briodol. Efallai eich bod wedi rhoi'r gorau i gynnig rhai modiwlau neu wedi ychwanegu rhai newydd ar gyfer 2011/12 neu 2012/13 yr hoffech eu rhestru ar wahân.

17. Yn ogystal ag anfon y rhestr o fodiwlau “Astudiaethau Cymreig” at bob sefydliad (**Tabl A**), byddwn hefyd yn cynnwys rhestr sy'n dangos y modiwlau na wnaethom eu cynnwys (**Tabl B**). Yna gall sefydliadau nodi a ddylai unrhyw rai o'r rhain fod yn Astudiaethau Cymreig, a nodi'r canrannau perthnasol.

18. Mae **Atodiad A** yn nodi'r egwyddorion cyffredinol rydym wedi'u cymhwyso wrth ddewis modiwlau, ynghyd â'n hymagwedd fwy penodol at godau'r System Cyd-godio Pynciau Academaidd (JACS).

19. Er ein bod wedi nodi bod Addysg yn un o'r meysydd pwnc yr hoffem edrych arnynt yn fanwl, nid ydym wedi cynnwys rhestr o fodiwlau ar gyfer y maes hwn, ond byddwn yn eu cwmpasu drwy'r sylwadau gan sefydliadau. Caiff hyn ei esbonio ymhellach ym mharagraffau 25 i 27.

20. Hefyd, nid ydym wedi cynnwys Astudiaethau Celtaidd yn y rhestr o fodiwlau. Rydym wedi cael y modiwlau hyn o ddata'r Awdurdod Safonau Addysg Uwch (AYAU) ac felly gallwn weld ystod y ddarpariaeth a gynigir, er enghraifft, mewn ieithoedd Celtaidd yn hytrach na Chymraeg. Fodd bynnag, byddem yn croesawu sylwadau gan sefydliadau (gweler paragraff 28).

b) Sylwadau ar Astudiaethau Cymreig

21. Rydym yn rhannu'r sylwadau ar y sylw a gaiff Astudiaethau Cymreig yng nghwricwlwm disgyblaethau amrywiol a'r meysydd pwnc i ddau gategori o brif bynciau a phynciau eraill.

22. Os yw sefydliadau o'r farn bod eu cenhadaeth a'u diwylliant yn cyfrannu at gefnogi Astudiaethau Cymreig ac am ddarparu datganiad byr i ddangos hyn, yna byddem yn fodlon i chi gynnwys hyn yn eich ymateb.

Prif bynciau

23. Felly, ar gyfer pob un o'r prif bynciau, pan fyddant yn codi yn eich cwricwlwm, byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu sylwadau gan gynnwys pwyntiau fel:

- ***Safle Astudiaethau Cymreig o fewn y ddarpariaeth gyffredinol yn y pwnc***.

  Er enghraifft:
  - y cyfraniad a wna i ddealltwriaeth myfyrwyr o hanes, llenyddiaeth, diwylliant, cymdeithas a gwleidyddiaeth Cymru;
  - ei berthnasedd â chwricwlwm priodol;
  - p'un a yw'n elfen hanfodol neu'n ddymunol, yn cynnwys i ba raddau y gallai rhywfaint o'r ddarpariaeth Astudiaethau Cymreig fod yn orfodol;
  - pa gamau a gymerir i gynnal neu ddatblygu Astudiaethau Cymreig, er enghraifft, wrth ddatblygu darpariaeth newydd neu lenwi sywddi gwag neu newydd.

- ***Poblogrwydd gyda myfyrwyr***

  Er enghraifft:
  - pa mor ddeniadol yw rhaglenni i fyfyrwyr sy'n seiliedig yn gryf neu'n gyfan gwbl ar Astudiaethau Cymreig;
  - lle mae gan fyfyrwyr ddewis o fodiwlau, pa mor boblogaidd yw modiwlau Astudiaethau Cymreig;
  - p'un a yw myfyrwyr yn manteisio ar ddewisiadau ar gyfer prosiectau, traethodau hir, lleoliadau gwaith ac ati, er mwyn cael ffocws ar Astudiaethau Cymreig.

- ***Darpariaeth cyfrwng Cymraeg***

  Er enghraifft:
  - y cydbwysedd rhwng darpariaeth Astudiaethau Cymreig cyfrwng Cymraeg a Saesneg;
  - p'un a yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn tueddu i gael ffocws mwy ar Astudiaethau Cymreig (hyd yn oed oes os yw'n adlewyrchu'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yn bennaf).

- ***Ymchwil***

  Er enghraifft:
  - i ba raddau y mae gan y gweithgaredd ymchwil ffocws ar Astudiaethau Cymreig;
  - ei gyfraniad at ymchwil ac ysgolheictod yn y ddisgyblaeth yn gyffredinol, yn ogystal ag ymchwil penodol Cymru;
  - bwydo i gwricwlwm y myfyrwyr.

- Yr ***heriau*** rydych yn eu hwynebu wrth gynnal neu ddatblygu'r ddarpariaeth o Astudiaethau Cymreig ar gyfer y dyfodol agos a'r tymor hwy.

- ***Ffactorau eraill*** yr hoffech dynnu ein sylw atynt

24. Dim ond canllaw yw'r rhestr uchod, ond dylai roi synnwyr o'r asesiad o gwmpas, cryfderau, a heriau Astudiaethau Cymreig yn y sector rydym am eu cyflawni. Efallai y bydd rhai o'r pwyntiau a godwyd yn ymddangos yn hollol amlwg ar gyfer rhai disgyblaethau, yn enwedig iaith a llenyddiaeth Cymraeg, ond ceir rhai eraill y gellir eu hehangu.

25. Nid ydym yn disgwyl dadansoddiad hir, efallai un neu ddwy ochr o A4 ar y mwyaf, efallai ychydig yn llai ar gyfer rhai pynciau.

Addysg

26. Fel y nodwyd uchod, nid ydym wedi cynnwys Addysg yn y rhestr o fodiwlau. Mae darpariaeth ar draws y sector yn cwmpasu ystod eang o agweddau ar addysg lle y gallai'r cyd-destun Cymreig ymddangos i raddau mwy neu lai. Felly roeddem o'r farn, gyda'r pwnc hwn yn benodol, y byddai ceisio llunio rhestr ystyrlon o fodiwlau heb gael gwybodaeth am gynnwys cwricwlwm y sefydliadau unigol yn anodd. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd y maes pwnc hwn i bob sector addysg yng Nghymru, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei gynnwys yn ein harolwg.

27. Mae paratoi hyfforddeion i gyflwyno'r "Cwricwlwm Cymreig" yn un o'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) ar gyfer athrawon ysgol a gallwn adlewyrchu hyn yn ein hystyriaeth o Astudiaethau Cymreig. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gallai darparwyr HCA nodi'n fras ym mha ffyrdd y maent yn cyflawni'r gofyniad hwn.

28. Disgwylir y bydd ffocws tebyg i'r Cwricwlwm Cymreig yn bodoli mewn darpariaeth arall sy'n darparu addysg a hyfforddiant ar gyfer lleoliadau ysgol a chyn-ysgol. Gallai hyfforddiant ar gyfer sectorau addysg eraill, cyrsiau sy'n gysylltiedig ag addysg a chyrsiau datblygiad proffesiynol parhaus gynnwys neu ofyn am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, a'r cyd-destun hanesyddol, gwleidyddol, cyfreithiol a diwylliannol Cymreig. Felly, yn ogystal â mynd i'r afael â'r pwyntiau a nodwyd ym mharagraff 22, byddem yn ddiolchgar pe gallai sefydliadau wneud sylwadau mwy penodol ar y ffordd y mae Astudiaethau Cymreig yn ymddangos yn eu portffolios. Efallai yr hoffech nodi modiwlau penodol i ni sydd â chynnwys Astudiaethau Cymreig cryf.

Astudiaethau Celtaidd

29. Byddem yn disgwyl bod darpariaeth sy'n gysylltiedig ag ieithoedd a llenyddiaeth Celtaidd ar wahân i'r Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n bennaf o fewn rhaglenni'r adrannau Cymraeg. Felly, wrth wneud sylwadau am eu darpariaeth iaith a llenyddiaeth Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallai sefydliadau gynnwys, fel y bo'n briodol, astudiaethau Celtaidd, yn cynnwys, er enghraifft, ei bwysigrwydd o fewn cynlluniau gradd amrywiol neu'r ffordd y mae'n gwella gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr o iaith a llenyddiaeth Cymru, ac ati.

Pynciau eraill

30. Ar gyfer pynciau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr o brif bynciau, hoffem i chi, ddarparu sylwadau cryno fel y bo'n briodol, lle rydych o'r farn bod gan eich darpariaeth gynnwys Astudiaethau Cymreig, ar natur y cynnwys hwnnw ac ystyried pwyntiau perthnasol o baragraff 18. Efallai yr hoffech ystyried modiwlau penodol i ni sydd â chynnwys Astudiaethau Cymreig cryf.

31. Yn **Atodiad B** rydym wedi nodi'r meysydd disgyblaeth amrywiol yn erbyn eu codau JACS, gan nodi lle y credwn fod ffocws ar Astudiaethau Cymreig. Fodd bynnag, ni ddylech deimlo bod rhaid i chi wneud sylwadau os nad oes llawer o ffocws yn eich darpariaeth - byddai nodi “ddim yn arwyddocaol” neu “ddim yn berthnasol” yn ddigonol.

Rhaglenni trawsgwricwlaidd neu ryngddisgyblaethol

32. Yma rydym wedi ffocysu'n bennaf ar feysydd pwnc unigol. Bydd llawer o fyfyrwyr yn astudio rhaglenni gradd cyfun neu ar y cyd a allai gynnwys Astudiaethau Cymreig o fwy nag un ddisgyblaeth. Fodd bynnag, byddai hefyd yn ddefnyddiol gwybod a oes rhaglenni rhyngddisgyblaethol penodol sy'n cyflwyno myfyrwyr i'r sbectrwm o Astudiaethau Cymreig.

Y Brifysgol Agored yng Nghymru

33. O ystyried bod cyrsiau'r Brifysgol Agored yn cael eu trefnu ar lefel y DU, nid ydym wedi cynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru yn yr arolwg o fodiwlau. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod modiwlau neu elfennau o fodiwlau sy'n cael eu cynnig gan y Brifysgol sydd â ffocws ar Astudiaethau Cymreig (y gallai myfyrwyr y tu allan i Gymru eu dilyn hefyd), yn ogystal â gweithgareddau eraill sy'n cefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o Gymru. Felly, hoffem i'r Brifysgol Agored yng Nghymru roi sylwadau i ni am ei chyfraniad i Astudiaethau Cymreig, gan dynnu ar y pwyntiau a nodwyd ym mharagraffau 19 i 31 fel y bo'n briodol. Mae'n bosibl y bydd am nodi modiwlau penodol.

Addysg uwch mewn colegau addysg bellach

34. Wrth lunio ymatebion, byddem yn ddiolchgar pe gallai SAUau ystyried cyd-destun Astudiaethau Cymreig o fewn darpariaeth eu ffranseis, a thrafod gyda'u partneriaid ffranseis lle y bo'n briodol.

35. Ar gyfer colegau AB sydd â darpariaeth addysg uwch a gyllidir yn uniongyrchol, byddem yn croesawu sylwadau gennych am y cynnwys Astudiaethau Cymreig o fewn eich darpariaeth, gan ystyried paragraffau 19 i 31 fel y bo'n briodol. Efallai yr hoffech nodi modiwlau sydd ag elfen Astudiaethau Cymreig cryf.

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

36. Yn ein llythyr grant at y Coleg rydym wedi gofyn iddo gyfrannu at ein hystyriaeth o Astudiaethau Cymreig, “gan gynnwys darparu gwybodaeth a chyngor ar y ddarpariaeth yn y disgyblaethau hyn drwy gyfrwng y Gymraeg”, a'i fod yn gweithio “gyda ni, fel sy’n briodol, ar unrhyw gamau gweithredu y penderfynwn arnynt wrth symud y dasg hon ymlaen”. Byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach gyda'r Coleg yn ystod cyfnod yr arolwg.

Amserlen

37. Byddwn yn anfon y rhestri o fodiwlau (Tablau A a B) at sefydliadau unigol dros yr e-bost at yr Is-ganghellor ac enwau cyswllt data'r sefydliadau erbyn 16 Tachwedd.

38. Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon ein hymatebion dros yr e-bost at Craig Brett (craig.brett@hefcw.ac.uk) erbyn **1 Chwefror 2013.**

Gwybodaeth bellach

Rydym yn sylweddoli y byddwch am drafod eich ymateb gyda ni cyn ei gyflwyno o bosibl, er mwyn cadarnhau'r math o wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i ni. Gallai hyn fod ar lefel disgyblaeth unigol yn ogystal â lefel sefydliadol. Cysylltwch ag Alison Allan (alison.allan@hefcw.ac.uk, rhif ffôn 029 2068 2223) neu Kimberley Meringolo (kimberley.meringolo@hefcw.ac.uk, rhif ffôn 029 2068 2258).

Dewis modiwlau – Prif Bynciau

Byddwn yn anfon rhestr o'u modiwlau at brifysgolion lle rydym o'r farn bod neu efallai bod cynnwys Astudiaethau Cymreig (**Tabl A**) a rhestr o'r modiwlau rydym wedi'u heithrio (**Tabl B**).

Wrth baratoi Tabl A, rydym wedi cynnwys modiwlau lle mae'r teitlau'n dynodi'n glir eu bod yn cynnwys Astudiaethau Cymreig neu ei bod yn debygol eu bod yn cynnwys rhywfaint o Astudiaethau Cymreig. Fel y nodwyd ym mharagraffau 12 o'r cylchlythyr, efallai y bydd achosion lle rydym wedi eithrio rhai modiwlau lle y ceir cynnwys Astudiaethau Cymreig o bosibl. Rydym wedi nodi isod o dan rai pynciau yn benodol lle y ceir enghreifftiau o hyn.

Os oes cynnwys Astudiaethau Cymreig mewn modiwl rydym wedi'i eithrio o'r rhestr, gall y sefydliadau gofnodi hynny yn Nhabl B.

Fodd bynnag, os oes elfen fach iawn o Astudiaethau Cymreig mewn nifer fawr o fodiwlau mewn disgyblaeth, efallai y byddai'n well gan y sefydliad ddelio â hyn mewn ffordd naratif drwy ei sylwadau.

Yn gyffredinol, nid ydym wedi cynnwys modiwlau sy'n cwmpasu prosiectau estynedig, traethodau pynciau arbennig, profiad gwaith, ac ati, oni fydd yn glir o'r teitlau bod y modiwlau hyn yn Astudiaethau Cymreig. Rydym hefyd wedi eithrio cofnodion ar gyfer ymchwil ôl-raddedig. Yn hytrach, bydd angen i sefydliadau ddweud wrthym am agweddau Astudiaethau Cymreig yn eu sylwadau.

Gwleidyddiaeth (L200 i L290)
Rydym wedi cynnwys modiwlau sydd â chyd-destun Prydeinig neu'r DU. Rydym wedi eithrio modiwlau sy'n ymwneud â materion rhyngwladol ac ar Ewrop/yr Undeb Ewropeaidd a modiwlau ar bynciau neu agweddau penodol ar y ddisgyblaeth oni fydd teitl y modiwl yn nodi cynnwys Astudiaethau Cymreig yn glir.

Daearyddiaeth (L700 i L711, L720, L721 i L727)
Yn gyffredinol nid ydym wedi eithrio modiwlau o dan y codau uchod, am fod teitl y modiwlau yn awgrymu meysydd craidd o'r ddisgyblaeth y gellid disgwyl iddynt gynnwys daearyddiaeth Brydeinig a Chymreig.

Y Gyfraith (M100, M110, M112, M200)
Rydym wedi cynnwys rhai modiwlau lle mae'r teitlau'n nodi eu bod yn debygol o gwmpasu'r system gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr. Rydym wedi eithrio rhai modiwlau sy'n delio gydag agweddau penodol ar y gyfraith, ee. cyfraith contract, cyfraith cwmnïau.

Twristiaeth (N800, N830 i N832, N870)
Wrth edrych ar y codau hyn sy'n cwmpasu Lletygarwch, Hamdden, Twristiaeth a Thrafnidiaeth ein prif ffocws oedd twristiaeth. Yn gyffredinol rydym wedi eithrio modiwlau sy'n ymddangos o dan y codau hyn gan gwmpasu hamdden a rheoli chwaraeon ac ati.

Ieithyddiaeth (Q100 i Q190)
Yn gyffredinol rydym ond wedi cynnwys modiwlau lle mae'r teitl yn nodi iaith Gymraeg neu ffocws ar ddwyieithrwydd. Er hynny rydym yn gwerthfawrogi bod ystod eang o bynciau yn cael eu trafod o dan y ddisgyblaeth hon ac o fewn cwricwlwm y sefydliadau unigol gallai rhai o'r modiwlau hyn gynnwys cyfeiriad at yr iaith Gymraeg neu gyd-destun Cymreig.

Llenyddiaeth Saesneg(Q300 i Q390)
Yn gyffredinol rydym wedi eithrio'r holl fodiwlau ar wahân i'r rhai sydd â chyfeiriad penodol at Gymru, lenyddiaeth Gymraeg neu Eingl-Gymreig. Er hynny rydym yn cydnabod y gellir disgwyl cynnwys awduron a beirdd o Gymru, ac ati, o fewn astudiaeth o gyfnod neu genres gwahanol.

Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Q560, Q561)
Fel y gellid disgwyl prin yw'r modiwlau rydym wedi'u heithrio yma, ar wahân i rai modiwlau cyfrwng Cymraeg o bosibl ar sgiliau astudio neu ddatblygiad personol, ac ati, sy'n debygol o fod yn fodiwlau cyffredinol heb gynnwys Astudiaethau Cymreig penodol.

Cyfieithu (Q910, Q920)
Yn gyffredinol rydym ond wedi cynnwys modiwlau sy'n cynnwys y Gymraeg fel un o'r ieithoedd. Fodd bynnag, efallai y bydd modiwlau sy'n delio ag egwyddorion cyffredinol neu agweddau arbenigol ar gyfieithu yn cynnwys cyfeiriad at yr iaith Gymraeg/cyd-destun Cymreig.

Hanes ac Archaeoleg (V100 i V490)
Yn ogystal â modiwlau hanes Cymru penodol, rydym wedi cynnwys modiwlau sy'n cwmpasu cyfnodau o hanes Prydain a Hanes Ewrop, oherwydd gellir disgwyl iddynt gynnwys hanes Cymru. Rydym wedi gwneud yr un peth gydag archaeoleg.

Cerddoriaeth (W300 i W390)
Mae llawer o'r modiwlau o dan y codau hyn yn cwmpasu astudiaethau offerynnol, cyfansoddi, offeryniaeth ac ati neu nid oeddent yn awgrymu cyd-destun nac elfen o Astudiaethau Cymreig. Mae'r modiwlau hyn wedi cael eu heithrio.

Drama/Theatr/Ffilm (W400 i W490, W500 i W590, W600 i W690, W900 i W990)
Yn gyffredinol, rydym ond wedi cynnwys modiwlau lle mae cyd-destun Astudiaethau Cymreig yn eithaf amlwg. Ar gyfer modiwlau cyfrwng Cymraeg, rydym wedi ceisio edrych arnynt yng nghyd-destun yr ystod gyffredinol o fodiwlau a gynigir gan sefydliad. Yn aml, rydym wedi eu heithrio pan maent yn ymddangos eu bod yn adlewyrchu modiwlau Saesneg rydym wedi'u heithrio hefyd. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi y gallai rhai o'r modiwlau yn Gymraeg a Saesneg gael cynnwys Astudiaethau Cymreig.

Ysgrifennu creadigol (W800 i W890)

Rydym ond wedi cynnwys modiwlau ysgrifennu creadigol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai rhai modiwlau cyfrwng Saesneg ymgorffori cyd-destun Cymru neu Gymreig.

A Meddygaeth a Deintyddiaeth
B Pynciau sy'n gysylltiedig â Meddygaeth

O fewn y disgyblaethau hyn, efallai y bydd angen i fyfyrwyr gael dealltwriaeth o'r cyd-destun cyfreithiol a gwleidyddol yng Nghymru, yn cynnwys datganoli a'i oblygiadau ar gyfer trefniadaeth y gwasanaeth iechyd. Agwedd arall fyddai ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac iaith a dwyieithrwydd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

C Gwyddorau Biolegol

Gallai astudiaethau arbennig neu waith maes, er enghraifft, gynnwys lleoliadau neu sefyllfaoedd yng Nghymru, sydd, yn eu tro yn golygu y byddai angen i fyfyrwyr gael dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol, cyfreithiol a gwleidyddol yng Nghymru. Gallai agweddau ar Seicoleg ofyn am ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

7 Gwyddorau Milfeddygol, Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig

O fewn y disgyblaethau hyn, efallai y bydd angen i fyfyrwyr gael dealltwriaeth o'r cyd-destun cyfreithiol, gwleidyddol, diwylliannol a hanesyddol yng Nghymru, yn cynnwys datganoli, yn enwedig ar gyfer Amaethyddiaeth, Coedwigaeth, Rheoli'r Amgylchedd, Rheoli Treftadaeth, ac ati

K Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio

Gallai'r pynciau hyn gynnwys astudiaeth o amgylcheddau Cymru ac astudiaethau achos gyda rhywfaint o gyd-destun hanesyddol neu ddiwylliannol cysylltiedig, yn ogystal â gwybodaeth am oblygiadau cyfreithiol a gwleidyddol datganoli ar gyfer cynllunio a datblygu, ac ati

L Astudiaethau Cymdeithasol

Gallai agweddau ar Astudiaethau Cymreig fodoli i raddau mwy neu lai yn y pynciau o fewn y grwpiau hyn, y tu hwnt i Wleidyddiaeth a Daearyddiaeth a nodwyd fel prif bynciau, er enghraifft, mewn Economeg a Chymdeithaseg. Gellid disgwyl i Bolisi Cymdeithasol yn benodol ofyn am ddealltwriaeth o gyd-destun diwylliannol, cyfreithiol a gwleidyddol Cymru. O fewn Gwaith Cymdeithasol a meysydd cysylltiedig, gallai ymgyfarwyddiad ac ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fod yn gymwysterau proffesiynol gofynnol.

P Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth

Efallai y bydd gan Wasanaethau Gwybodaeth (yn cynnwys Astudiaethau Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd ac Archifau) a Newyddiaduraeth agweddau ar Astudiaethau Cymreig, yn enwedig os yw'r cwrs yn paratoi myfyrwyr i weithio yn y proffesiynau hyn yng Nghymru. Ar gyfer disgyblaethau eraill yn y grŵp hwn, fel Astudiaethau'r Cyfryngau, credwn y byddai agweddau ar Astudiaethau Cymreig yn fwy tebygol o gael eu cwmpasu o dan y Celfyddydau Creadigol, a nodwyd gennym fel prif bwnc.